

A3. Datblygu'ch rhwydweithiau personol

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â datblygu'ch rhwydweithiau personol er mwyn cefnogi'r gwaith rydych yn ei wneud ar hyn o bryd a'r gwaith y byddwch yn ei wneud yn y dyfodol.

Gall eich rhwydweithiau personol gynnwys pobl yn eich sefydliad chi eich hun, pobl y byddwch yn cyfarfod â nhw o sefydliadau eraill, a phobl y byddwch mewn cysylltiad â nhw dros y ffôn neu'r Rhyngrwyd.

Mae datblygu rhwydweithiau personol wedi'i seilio ar egwyddorion o'r ddwy ochr (cyfnewid pethau ag eraill er budd y naill a'r llall) a chyfrinachedd. Ni fydd pobl am rwydweithio oni bai fod yna fanteision i'r naill garfan a'r llall o gyfnewid gwybodaeth ac adnoddau eraill. Hefyd mae'n rhaid cytuno ar derfynau cyfrinachedd eglur – bydd peth gwybodaeth a rhai adnoddau penodol yn gyfrinachol felly ni fydd modd eu cyfnewid.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer rheolwyr canol ac uwch reolwyr.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac unedau **A2. Rheoli'ch adnoddau a'ch datblygiad proffesiynol eich hun** a **D2. Datblygu perthnasau gweithio cynhyrchiol gyda chydweithwyr a budd-ddeiliaid** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Os mai cwmni bach yw'ch sefydliad, dylech edrych ar Uned *A3 Check your own skills* y mae Cynllun Datblygu Menter Cwmnïau Bychain (SFEDI) wedi'i datblygu yn benodol i gwmnïau bychain a **allai** fod yn fwy addas i'ch anghenion chi. Gallwch gael gwybodaeth am yr uned oddi wrth SFEDI ffôn: 0114 241 2155 neu wefan SFEDI (www.sfedi.co.uk).

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth ddatblygu'ch rhwydweithiau personol. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Cyfathrebu
- Gosod amcanion

- Gofyn cwestiynau
- Rheoli amser
- Rheoli gwybodaeth
- Cyflwyno gwybodaeth
- Dylanwadu a pherswadio
- Myfyrio
- Dysgu
- Gwerthuso
- Rheoli risg

A3. Datblygu'ch rhwydweithiau personol

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Datblygu a chynnal rhwydweithiau personol o gysylltwyr, sef rhwydweithiau sy'n briodol i ddiwallu'ch anghenion o ran gwybodaeth ac adnoddau, heddiw ac yfory.
2. Sicrhau bod gan aelodau allweddol eich rhwydweithiau personol syniad manwl-gywir o'ch gwybodaeth, eich dealltwriaeth, eich sgiliau, eich galluedd a'ch profiad, a'u bod yn ymwybodol o fanteision rhwydweithio gyda chi.
3. Gosod terfynau cyfrinachedd rhyngoch chi ac aelodau'ch rhwydweithiau personol a, lle bo hynny'n briodol, datblygu canllawiau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac adnoddau.
4. Datblygu'ch rhwydweithiau personol i adlewyrchu'ch diddordebau a'ch anghenion sy'n newid.
5. Mynd ati i ddefnyddio'r wybodaeth a'r adnoddau rydych wedi'u hennill trwy'ch rhwydweithiau personol.
6. Cyflwyno pobl a sefydliadau sydd â diddordebau cyffredin.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn cydnabod pan fydd eich diddordebau chi'ch hun yn gwrthdaro â nodau cyffredin.
2. Byddwch yn datgan eich safbwynt a'ch barn eich hun yn eglur ac yn hyderus mewn sefyllfaoedd o wrthdaro.
3. Byddwch yn annog eraill i rannu gwybodaeth o fewn cyfyngiadau cyfrinachedd.
4. Byddwch yn nodi ac yn gweithio gyda phobl a sefydliadau sy'n gallu darparu cefnogaeth i'ch gwaith.
5. Byddwch yn gweithio i ddatblygu awyrgylch o broffesiynoldeb a chefnogaeth y naill i'r llall.
6. Byddwch yn egluro'ch disgwyliadau chi a disgwyliadau pobl eraill ynghylch perthnasau.
7. Byddwch yn ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos parch, cymwynasgarwch a chydweithrediad.
8. Byddwch yn cadw addewidion ac yn cyflawni ymrwymadau.
9. Byddwch yn ystyried effaith eich gweithredoedd eich hun ar bobl eraill.
10. Byddwch yn myfyrio'n rheolaidd ar eich profiadau eich hun ac yn defnyddio'r

rhain i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

A3. Datblygu'ch rhwydweithiau personol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Manteision rhwydweithio i unigolion a sefydliadau
2. Egwyddorion cyfathrebu effeithiol, a sut i'w cymhwyso wrth ddatblygu rhwydweithiau personol
3. Amrediad y gwahanol fathau o gwestiynau, a sut a phryd i'w defnyddio
4. Amrediad y gwahanol arddulliau cyfathrebu, a sut y bydd yn well gan bobl gyfathrebu
5. Amrediad y dulliau ar gyfer datblygu perthnasau effeithiol ag eraill yng nghyd-destun gwaith a, lle bo angen, sut i ddirwyn perthnasau i ben pan nad ydyn nhw bellach yn ddefnyddiol
6. Sut i fynd ati i ddefnyddio gwybodaeth ac adnoddau rydych wedi'u hennill trwy rwydweithiau personol
7. Egwyddorion cyfrinachedd, a sut i ddatblygu canllawiau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng unigolion a sefydliadau

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Deddfwriaeth, gofynion, rheoliadau, polisiau a chodau proffesiynol yn y diwydiant/sector sy'n berthnasol i rwydweithio a chyfrinachedd gwybodaeth.

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Eich gwerthoedd, eich cymelliannau a'ch emosiynau eich hun, ac effaith y rhain ar eich gweithredu eich hun
2. Eich buddiannau eich hun a sut y gallai'r rhain wrthdaro â buddiannau pobl eraill
3. Eich amcanion eich hun wrth ddatblygu'ch rhwydweithiau personol
4. Eich anghenion cyfredol o ran gwybodaeth ac adnoddau a'ch anghenion tebygol yn y dyfodol
5. Eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth, eich sgiliau, eich galluoedd a'ch profiad
6. Pobl a sefydliadau a all gefnogi'ch gwaith, a rhai y gallwch chithau gefnogi eu gwaith nhw
7. Amrediad y wybodaeth a'r adnoddau y gallai fod eu hangen ar bobl
8. Pobl a sefydliadau yn eich rhwydweithiau personol presennol